❖ Ymateb rhai o'r Tystion i'r Newyddion am Eni Rhyfeddol Iesu ❖ Joseff

Dydw i ddim yn meddwl y gwna i fyth
ddeall yr hyn sydd wedi digwydd i mi
yn ystod y misoedd diwethaf.
Yn ifanc a diofal,
roeddwn yn edrych ymlaen at briodi Mair,
fy nywedddi.
Ac yna, dywedodd hi wrtha i
ei bod hi'n feichiog!
Chwalodd fy mywyd o'm cwmpas
oherwydd cywilydd y peth
a'r siom enfawr.
Roedd ganddi stori wallgo'
am yr Ysbryd Glân!
Oedd hi'n meddwl fy mod i'n ffŵl?
Rwy'n gobeithio ei **bod** hi'n dweud y gwir…
Ond rwy'n ddyn anrhydeddus.
Ddim am ei gwaradwyddo'n gyhoeddus.
Tra roeddwn i'n meddwl,
yn ystyried beth i'w wneud,
daeth angel ataf mewn breuddwyd
a fy sicrhau bod Mair yn dweud y gwir!
Byddai ei mab, y baban,
yn cael ei enwi'n Iesu
a byddai'n achub ei bobl o'u pechodau.
Felly, dyma ni'n priodi
ac yn aros am yr enedigaeth
gydag awch a pharchedig ofn…
Roedd yr amser yn agos
pan alwyd y cyfrifiad.
Bethlehem oedd man fy hynafiaid,
ac roedd rhaid mynd yno.
Gweddïais y byddai'r baban yn aros
nes i ni gyrraedd y dref…
Ac yna, nes i ni ganfod lle…
'Dim ystafell' oedd yr ateb
ble bynnag yr euthum –
dim lle – ac amser yn prinhau.
Ac yna, stabl,
man gostyngedig
ond cynnes a sych,
a gwaedd gyntaf y plentyn
yn deffro'r adar yn y bondo.